Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Cofnodion y Cyd-bwyllgor Archwilio**
**Dydd Mawrth 23 Medi 2015 am 10:00y.b.**
**Y Ganolfan Gydlynu Strategol, Pencadlys yr Heddlu**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | Mr Alasdair Kenwright, Cadeirydd | ) Aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio |
| | Mr Gawain Evans | ) |
| | Mr Malcolm MacDonald | ) |

**Hefyd yn bresennol:**

Christopher Salmon – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)
Simon Prince – Prif Gwnstabl (PG)
Helen Morgan-Howard – Pennaeth Staff, SCHTh (HMH)
Jayne Woods – Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)
Edwin Harries – Cyfarwyddwr Cyllid (CC)
Karen Davies – Cyfrifydd yr Heddlu (KD)
John Herniman – Cyfarwyddwr Ymgysylltu, Swyddfa Archwilio Cymru (JH)
Jason Garcia – Rheolwr Archwilio, Swyddfa Archwilio Cymru (JG)
Vicky Davies – Pennaeth Archwilio TIAA (VD)
Anne Williams – Swyddog Cymorth, SCHTh

**A1 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth Ann Williams, Aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio, ac Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau.

**A2 Datganiadau o ddiddordeb**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**A3 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2015**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

**A4 Materion yn codi**

O dan A64 – Cytunwyd i drafod Cynaliadwyedd Ariannol Heddluoedd yng Nghymru a Lloegr o dan Unrhyw Fusnes Arall.

O dan A58 – Parhad Busnes – gwneir cyflwyniad yng nghyfarfod Pwyllgor mis Rhagfyr.

**Blwyddyn Ariannol 2014/15:**

**A5 Derbyn Llythyr o Gynrychiolaeth ddrafft 2014-15**

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a Phrif Gwnstabl Dyfed-Powys**

Roedd y llythyrau o gynrychiolaeth yn ffurfio rhan o ofyniad safonol yr archwiliad o ddatganiadau ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Dyfed-Powys

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 ar gyfer dibenion mynegi barn ar eu gwirionedd a'u tegwch.

Roedd aelodau'n fodlon â'r cynnwys a chadarnhawyd na ddylid dwyn unrhyw beth arall i sylw Archwilio Cymru. Tynnwyd sylw at rai mân ddiwygiadau o fewn y llythyrau ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ddyddio'r llythyrau ar y cyd ag arwyddo'r cyfrifon, neu mor agos â phosibl.

**Penderfyniad: Cymeradwywyd Llythyr o Gynrychiolaeth Drafft Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer llofnodi.**

**Cymeradwywyd Llythyr o Gynrychiolaeth Drafft y Prif Gwnstabl ar gyfer llofnodi.**

**A6 Derbyn ymateb rheolwyr i'r ymholiadau ymchwilio ar drefniadau ar gyfer atal a datrys twyll.**

Cyfeiriodd JH at y gofynion a nodir yn y Safonau Archwilio Rhyngwladol (SARh) a geisiodd ystyriaeth wedi'i ddogfennu a dealltwriaeth o feysydd llywodraethu sy'n effeithio ar archwilio'r datganiadau ariannol. Mae'r adroddiad yn nodi ymatebion ac ymholiadau a wnaed o Reolwyr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl ac mae'n cefnogi barn archwilio SAC ar ddatganiadau ariannol 2014-15.

Gan gyfeirio at y cwestiynau a ofynnwyd i'r CHTh a'r PG, gofynnodd AMSK pa un ai a oedd SAC yn fodlon â'r ymatebion a dderbyniwyd. Cadarnhaodd JG ei bod hi'n arfer da i ddwyn y weithdrefn i'r Cydbwyllgor Archwilio a chadarnhaodd JH bod SAC yn fodlon â'r holl gynrychiolaethau.

Nodwyd bod aelodau'n fodlon â chynnwys y llythyr a'r ymatebion.

**Penderfyniad: Roedd yr aelodau'n cytuno ag ymateb rheolwyr i'r ymholiadau ymchwilio ar drefniadau ar gyfer atal a datrys twyll.**

**A7 Ystyried Datganiadau Ariannol 2014-15 Swyddfa Archwilio Cymru**

Cyflwynodd JH Ddatganiadau Ariannol 2014/15 Swyddfa Archwilio Cymru sy'n crynhoi'r materion allweddol sydd wedi codi o'r archwilio o gyfrifon.

Cofnododd JH ei ddiolch i'r Tîm Cyllid am eu gwaith yn ystod y broses a chadarnhaodd fwriad yr Archwilydd Cyffredinol i gyhoeddi barn archwilio anghymwys ar ddatganiadau ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl erbyn y terfyn amser statudol.

Cytunwyd ar rai mân newidiadau i'r ddau set o gofnodion. Doedd dim camddatganiadau heb eu cywiro ar ôl a thynnwyd sylw at gamddatganiadau a gywirwyd gan reolwyr yn yr Atodiadau. Crynhodd JH y rheswm dros ddiwygiad i Eiddo,

Peiriannau ac Offer a gwnaeth arsylwad mewn perthynas â chydnabyddiaeth ar gyfer darpariaeth yn y cyfrifon ar gyfer taliadau cyfandaliad wedi'u hôl-ddyddio i bensiynwyr.

2014/15 oedd y flwyddyn gyntaf lle'r oedd angen i'r cyfrifon ddatgelu cyfradd tâl y Prif Weithredwr a'r Prif Gwnstabl i dâl canolrif swyddogion a staff; trafodwyd a gohebwyd ynghylch y mater hwn â rheolwyr. Cwestiynodd y Cadeirydd ofynion priodol mewn perthynas â datgelu.

Cyfeiriodd JH at newidiadau a oedd yn effeithio ar bob corff llywodraethol yng Nghymru a Lloegr; sef y newidiadau i ddiffiniad gweithrediadau a reolir ar y cyd o fewn y Cod Ymarfer Archwilio a rheoliadau archwilio a oedd yn golygu bod angen cynnwys gweithgareddau ychwanegol mewn datgeliadau sy'n ymwneud â chydweithio. Er yn fodlon â'r wybodaeth o fewn y cyfrifon, nododd JH argymhellion ar gyfer cyfrifon yn y dyfodol. Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad ar fater cydweithio a oedd wedi arwain at ddiffyg gwybodaeth yn cael ei darparu gan Heddlu arall o fewn yr amser gofynnol a cheisiodd argymhellion ar gyfer blynyddoedd i ddod. Cadarnhaodd JH y byddai'r mater yn cael ei godi yn dilyn hynny gyda phob corff priodol.

Ar ran y Pwyllgor, diolchodd y Cadeirydd KD a'r Tîm Cyllid am eu gwaith caled o ran cyflwyno'r cyfrifon. Ar ran tîm SAC, cefnogodd JG deimladau'r Cadeirydd.

Gwnaeth y PG sylw mewn perthynas â'r heriau o ran cynhyrchu'r cyfrifon o ganlyniad i'r newidiadau o fewn yr heddlu er mwyn cyflwyno gostyngiadau o ran costau.

Cyfeiriodd JH at ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr amserlen ar gyfer cau'r cyfrifon yn gynt ar gyfer cyrff llywodraeth leol a'r amserlenni ar gyfer cau ar gyfer cyrff plismona yn y dyfodol. Pwysleisiodd bwysigrwydd dechrau edrych ar newid prosesau er mwyn bodloni'r terfynau amser hynny. Anfonwyd gwahoddiadau ar bersonél priodol i weithdy arfer da. Cafwyd trafodaeth hir o gwmpas llwyth gwaith mewn perthynas â'r newidiadau hynny a phwysleisiodd MM bod gan newidiadau oblygiadau mawr ar gyfer SAC hefyd a chwestiynodd waith paratoi sy'n digwydd mewn perthynas â'r newidiadau.

**A8 Ystyried Datganiad o Gyfrifon Drafft y Prif Gwnstabl ar gyfer 2014-2015**

Nodwyd bod y cyfrifon drafft yn cynnwys diwygiadau archwilio y cytunwyd arnynt â Swyddfa Archwilio Cymru nad oedd yn destun gwiriadau terfynol ganddynt ac y gallai'r fersiwn drafft fod yn destun diwygio pellach.

Rhoddodd y CC drosolwg byr o Ddatganiad o Gyfrifon y Prif Gwnstabl a oedd yn darparu gwybodaeth ar y sefyllfa ariannol a'r perfformiad ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15.

Sefydlodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol pob Prif Gwnstabl fel endid cyfreithiol neu 'corfforaeth undyn' yn ei hawl ei hun ar 21 Tachwedd 2012. Hwn oedd y trydydd Datganiad o Gyfrifon i gael ei gynhyrchu gan Brif Gwnstabl Dyfed-Powys o dan y trefniadau hynny.

Nodwyd sefyllfa ariannol gyfunol Grŵp y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer Dyfed-Powys mewn dogfen Datganiad o Gyfrifon ar wahân a gynhyrchwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Roedd y cyfrifon yn rhoi manylion am faterion ariannol y Prif Gwnstabl ac roedd e'n cynnwys Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol, Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr, Mantolen a nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Roedd llawer o fanylion yn y rhagair a thynnodd y CC sylw aelodau at rai ffactorau gwerth eu nodi. Nododd EH y flwyddyn fel blwyddyn trawsnewid ar gyfer yr Heddlu pan drosglwyddwyd pob aelod o staff yr heddlu o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Prif Gwnstabl i gyflogaeth yr Heddlu ar 1 Ebrill 2014. Cyn hynny, roedd yr holl aelodau staff o dan gyflogaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Ynghyd â hyn, gweithredodd yr Heddlu'r rhaglen 'Y Cyhoedd yn Gyntaf' a oedd yn ceisio alinio strwythuro a'u gwneud mor effeithiol â phosibl gyda chyn lleied o adnoddau â phosibl er mwyn cynnal strwythurau plismona gweithredol.

Roedd y tabl ar dudalen 5 yn nodi'r sefyllfa alldro ar gyfer 2014/15 o gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig a gwreiddiol ar gyfer y Prif Gwnstabl. Roedd y Prif Gwnstabl wedi cyflwyno gwasanaethau plismona ymhell o fewn y terfynau cyllideb a osodwyd ar gyfer 2014/15 a chyfrannodd ffigwr cadarn ar gyfer cronfeydd wrth gefn. Cyfeiriodd y CC at gostau cyflogwyr o ran swyddogion sy'n uwch na'r gyllideb a darparodd eglurhad. Darparodd y CC eglurhad ar yr amrywiad mewn costau Staff Heddlu a'r tanwariant oherwydd y broses 'Y Cyhoedd yn Gyntaf' a chyfeiriodd at feysydd newidiol eraill.

Datgelwyd eitemau Incwm a Gwariant eithriadol ynghyd ag effaith yr hinsawdd economaidd gyfredol ansicr ar y Prif Gwnstabl h.y. canlyniad hir disgwyliedig yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a'r ymgynghoriad adolygu Fformiwla Ariannu.

Tynnodd MM sylw at rai newidiadau mân ar gyfer eu hystyried ac atgoffodd y CC yr Aelodau nad oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi archwilio'r cyfrifon drafft er eu bod wedi cytuno ar y newidiadau archwilio a gynhwysir ynddynt.

Sylwodd MM ar y manylion mewn perthynas ag archwiliadau AHEM a oedd wedi'u cynnal yn y flwyddyn ariannol. Rhoddodd y CC esboniad priodol yn dilyn cwestiwn ar daliadau cymudiad a'r elfen o ansicrwydd mewn perthynas â nhw.

O dan yr adran ar Weithwyr Eraill, cwestiynodd y Cadeirydd y gweithdrefnau ar gyfer datgelu tâl gweithwyr y Prif Gwnstabl dros £60,000.

**Ystyried Datganiad o Gyfrifon (Cyfrifon Grŵp) drafft Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer 2014-2015**

Rhoddodd y PSA drosolwg byr o sefyllfa ariannol y Cyfrifon Grŵp cyfunol a oedd yn cynnwys Cyfrifon y Comisiynydd. Fel Cyfrifon y Prif Gwnstabl, darparodd y rhagair

esboniadol esboniad o'r datganiadau a'u diben a'u perthynas. Yn gryno, roedd sefyllfa'r Comisiynydd yn dangos tanwariant yn erbyn y gyllideb a arweiniodd at drosglwyddo £618,000 i gronfeydd wrth gefn.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2014/15 roedd y Comisiynydd yn dal cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy gwerth £45 miliwn a fyddai'n gostwng yn sylweddol dros y pedair blynedd nesaf gyda'r rhan fwyaf yn cael ei bennu ar gyfer gwaith ystadau sylweddol. Eglurodd y PSA y sefyllfa ar swm y cronfeydd wrth gefn refeniw a glustnodwyd o £22.8 miliwn a phenderfyniad y Comisiynydd ar swm y cronfeydd wrth gefn wrth osod gostyngiad o 5% yn y Dreth Gyngor sy'n daladwy.

Rhoddodd y PSA ddiweddariad ar fater cenedlaethol o lwfansau dewisol a dalwyd i brif swyddogion yng Nghymru a Lloegr a oedd yn cynnwys nifer bychan o fewn Dyfed-Powys. Disgwyliwyd y byddai adolygiad o'r wybodaeth gyfredol sydd ar gael i'r Comisiynydd yn dwyn y mater i ben heb unrhyw weithredu pellach. Cadarnhaodd JH bod SAC yn fodlon â'r ymagwedd a gymerwyd a'r canlyniad a ddisgwylir. Roedd MM yn fodlon bod llwybr o gamau gweithredu wedi'i ddogfennu a bod dewisiadau amrywiol wedi'u hystyried pe bai unrhyw ymholiadau yn y dyfodol. Roedd AMSK yn falch bod canlyniad wedi'i sefydlu a bod taliadau wedi'u gwneud ar y pryd yn ddidwyll heb fod y rhoddwr na'r derbynwyr eisiau gweithredu'n amhriodol.

Cwestiynodd MM ffigurau o fewn cronfeydd ariannol y grŵp o gymharu â'r ffigurau a nodwyd o fewn y gyllideb refeniw nad oedd yn cyfateb.

Mewn ymateb i gwestiwn ar gynnwys tabl ar ddyledwyr tymor byr, roedd MM yn fodlon â'r ymateb a ddarparwyd gan y PSA a'r gwaith yr ymgymerwyd ag ef yn dilyn archwiliad mewnol ar ddyledwyr.

Rhoddodd y CC esboniad ar gysylltiad Cronfa Cyflwyno'r Heddlu.

Tynnodd MM sylw at fân feysydd o fewn y cyfrifon a nodwyd pob un ar gyfer eu diwygio.

Diolchwyd i MM am ei dryloywder o ran archwilio'r cyfrifon.

Daeth y Cadeirydd i'r casgliad bod Aelodau'n fodlon â gwybodaeth o fewn y Llythyrau o Gynrychiolaeth a'r Datganiad Blynyddol o Gyfrifon ar gyfer 2014-15.

**Penderfyniad: Cymeradwywyd Datganiad o Gyfrifon Blynyddol drafft y Prif Gwnstabl ar gyfer 2014-15 a Datganiad o Gyfrifon (Cyfrifon Grŵp) Drafft Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer 2014-15.**

**Blwyddyn Ariannol 2015/16**

**A9 Adroddiad Cynnydd yr Archwilwyr Mewnol**

Tynnodd VD sylw at archwiliadau a gynhaliwyd ers cyfarfod diwethaf y Cyd-bwyllgor Archwilio. Bu cynnydd da o ran Cynllun Blynyddol 2015/16 gyda mân newidiadau'n unig i'r amserau a gynigwyd. Roedd cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd wedi'u cynnal â Swyddfa Archwilio Cymru ac ni chynghorwyd ynghylch unrhyw dwyll neu anghysondebau.

Rhoddodd VD eglurhad yn dilyn cwestiwn gan y Cadeirydd ar unrhyw feysydd gwastraff yn y chwarter cyntaf na ailadroddwyd yn chwarter 2.

Roedd y 3 argymhelliad Blaenoriaeth 1 sy'n weddill yn nodi bod yr amserlen ar gyfer gweithredu Cynllunio Parhad Busnes wedi'i symud i ddiwedd Rhagfyr ac roedd y 2 argymhelliad Blaenoriaeth 1 arall, sef Dyledwyr a Systemau TG wedi'u gorffen ond wedi'u gadael yn yr adroddiad ar gyfer arfer da a byddant yn dod i ffwrdd tro nesaf. Roedd aelodau'n fodlon â'r llwybr hwn.

Gadawodd JH y cyfarfod.

**A10 Adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol –**

**Rheoli AD – Adolygiad o Drefniadau Rheoli Absenoldeb**

Roedd yr adolygiad yn ystyried y trefniadau sydd mewn grym ar gyfer rheoli absenoldeb salwch gan gynnwys monitro ac adrodd. Roedd yr adolygiad hefyd yn ystyried trefniadau ar gyfer atal a lleihau lefelau absenoldebau salwch. Rhoddodd yr adolygiad lefel sicrwydd rhesymol gyda 6 argymhelliad Blaenoriaeth 2 yn cael eu nodi o gwmpas diffyg cydymffurfiad â'r Polisi sydd mewn grym. Nododd canfyddiadau allweddol bod y Polisi wedi'i adolygu diwethaf ym mis Mai 2015 a holodd MM ynghylch unrhyw newidiadau arwyddocaol ers y Polisi sefydledig dyddiedig Medi 2014. Cadarnhaodd ymateb ychydig o newid ac roedd staff wedi'u hatgoffa ynghylch eu cyfrifoldebau a chydymffurfiaeth â'r Polisi. Mewn ymateb i gwestiwn, darparodd y CC eglurhad ar allu'r system TRENT o ran rheoli achosion o salwch a chysylltu â'r system AD.

**Adolygu Trefniadau o ran y Defnydd o Ffonau Symudol**

Roedd yr adolygiad yn gwerthuso'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi a dychwelyd ffonau symudol a gyhoeddwyd gan yr Heddlu. Roedd yr adolygiad hefyd yn ystyried y trefniadau ar gyfer monitro defnydd a'r broses ar gyfer sicrhau ad-daliad ar gyfer defnydd preifat.

Rhoddodd yr adolygiad asesiad sicrwydd cyffredinol o resymol gyda 3 argymhelliad Blaenoriaeth 2 a oedd yn tynnu sylw at anghysondebau mewn prosesau wrth adfer dyledion heb eu talu. Cwestiynodd aelodau mecanweithiau a phrosesau'r system defnydd ffôn preifat.

**Adolygu Trefniadau ar gyfer Awdurdodi Taliadau Goramser a Lwfansau Ychwanegol**

Roedd yr adolygiad yn ystyried y trefniadau ar gyfer awdurdodi a chymeradwyo goramser a thalu lwfansau ychwanegol ar lefel Adrannol a Rhanbarthol. Rhoddodd yr adolygiad asesiad sicrwydd sylweddol gyda chanfyddiadau allweddol yn cadarnhau bod prosesau cadarn ac effeithiol mewn grym ar gyfer awdurdodi taliadau goramser a lwfansau ychwanegol i'w gweithwyr. Roedd argymhellion yn cyfeirio at rai mân feysydd gwelliant o ran cwblhau ac awdurdodi ffurflenni.

**Penderfyniad: Nododd y Cyd-bwyllgor Archwilio adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol.**

## A11 Rheoli Trysorlys

Cadarnhaodd y PSA bod y swyddogaeth rheoli trysorlys wedi cydymffurfio â'r Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys ac arferion rheoli trysorlys yn y flwyddyn ariannol 2014/15. Doedd dim un o'r dangosyddion cynghorus wedi'u torri a chymerwyd ymagwedd ddoeth mewn perthynas â gweithgarwch buddsoddi gan roi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd dros gynnyrch.

Hyd yn hyn yn 2015/16 mae gweithgareddau Rheoli Trysorlys wedi parhau i berfformio yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys gyfredol. Yn ogystal â'r gofynion statudol cyfredol, ar gyngor Arlingclose, cynigiodd y PSA ddau newid i'r Strategaeth Buddsoddi yn syth er mwyn caniatáu ar gyfer cyfleoedd pennaf o ran buddsoddi mewn buddsoddiadau dros 364 diwrnod. Roedd y PSA wrthi'n cynnal adolygiad o'r Strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf gyda golwg ar wneud newidiadau sylfaenol i ganiatáu ar gyfer cynnydd mewn enillion a lleihau risg.

Cwestiynodd MM y gofynion a'r ddyletswydd gyfreithiol mewn perthynas â'r effaith ar allu'r Comisiynydd i godi'r praesept pe bai arian yn cael ei fuddsoddi am fwy na blwyddyn. Cytunodd y PSA i ymchwilio i'r mater.

Mewn ymateb i gwestiwn a ofynnwyd gan AMSK, cadarnhaodd y PSA y dylem gyflawni cyfradd llog sy'n agosach at y gyfradd llog cyfartalog a gyflawnir gan gleientiaid Arlingclose o ganlyniad i'r newidiadau a gynigir ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cynghorodd y PSA ar ffynhonnell cyngor statws credyd yr Heddlu.

**Penderfyniad: Ystyriodd y Cyd-bwyllgor Archwilio Adroddiad Alldro'r Trysorlys ar gyfer 2014/15, adroddiad canol blwyddyn ar gyfer 2015/16 a'r newidiadau arfaethedig i'r Strategaeth Rheoli Trysorlys.**

## A12 Diweddariad ar weithgarwch AHEM

Roedd cyfundrefn arolygu AHEM dal yn weithgar a rhoddodd y CC ddiweddariad llafar ar weithgarwch diweddar. Nodwyd 18 argymhelliad penodol ar yr adroddiad thematig ar archwiliad Trwyddedu Arfau Saethu – y PG fyddai'n gweithredu naw, y Swyddfa

Gartref fyddai'n gweithredu chwech, a byddai arweinydd cenedlaethol yr heddlu ar arfau saethu'n gweithredu tri. Roedd gwaith yn digwydd o fewn yr Heddlu i ddatblygu cynllun gweithredu penodol o ran canfyddiadau AHEM.

Roedd gweithgarwch archwilio arall nas adroddwyd arno hyd yn hyn yn cynnwys archwiliad Arweinyddiaeth Cyfoedion, Trais sy'n Seiliedig ar Anrhydedd, ac ymweliad arall â Diogelu Plant yn genedlaethol. Disgwylir adroddiad thematig ar Fregusrwydd mewn archwiliad ffeiliau achos lle'r archwiliwyd deg o ffeiliau achos Heddlu Dyfed-Powys gyda rhai argymhellion cenedlaethol o ran yr archwiliad hwnnw.

Roedd AHEM yn yr Heddlu ar hyn o bryd yn edrych ar effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb gydag archwiliad i'w gynnal ym mis Medi / Hydref 2015.

**Penderfyniad: Nododd y Cyd-bwyllgor Archwilio'r wybodaeth a ddarparwyd ar lafar ar weithgarwch AHEM.**

**A13 Derbyn Cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol ar 1 Medi 2015.**

Crynhodd y CC feysydd allweddol o fewn y cofnodion. Ymddangosodd y Datganiadau Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer y CHTh a'r PG a gyflwynwyd yng nghyfarfod Cyd-bwyllgor Archwilio mis Mehefin yng Nghyfrifon Blynyddol y CHTh a'r PG. Daeth trafodaethau ar yr adolygiad o faterion cyfredol ar drefniadau llywodraethu i'r casgliad nad oedd unrhyw beth o arwyddocâd mawr a fyddai'n dwyn yr Heddlu i newid ei Ddatganiadau Llywodraethu Corfforaethol. Crynhowyd diweddariad ar fonitro tasgau cyfredol ynghyd ag adolygiad o egwyddorion craidd wedi'i ddiweddaru. Nodwyd bod rôl Grŵp Moeseg o ran adolygu penderfyniadau allweddol yn cryfhau craffu effeithiol ar reoli risg. Cafwyd trafodaeth fer o gwmpas ymgysylltu â chymunedau cyn yr etholiad Comisiynwyr Heddlu a Throseddu sydd ar ddod a'r cyfnod o enciliad. Byddai cyfarfod nesaf y grŵp yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd.

**Penderfyniad: Nododd y Cyd-bwyllgor Archwilio gofnodion 1 Medi 2015 y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.**

**A14 Ymgynghoriad ar God Ymarfer ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol 2016/17**

Rhoddodd y PSA wybodaeth i Aelodau ar ddau ymarfer ymgynghori CIPFA sydd yn dod i ben ar 9 Hydref 2015 – un ar y Cod Ymarfer ar gyfer y flwyddyn nesaf a'r llall, sy'n fwy perthnasol ar gyfer yr Aelodau, ar yr ymgynghoriad Symleiddio'r Cyfrifon (Dweud y Stori). Crynhodd y PSA y prif feysydd o fewn y papur ymgynghori a thynnodd sylw at fanteision ac anfanteision y dewisiadau sydd ar gael. Hyd yn hyn, nid oedd barn wedi'i ffurfio a bwriad y PSA oedd cynnal gwaith pellach i edrych ar yr oblygiadau ar gyfer Dyfed-Powys.

Gwnaeth yr Aelodau arsylwadau priodol mewn perthynas â pharatoi'r cyfrifon, yn arbennig o ran yr amserlen sydd ar gael i gynhyrchu'r cyfrifon yn cael ei gwtogi.
Cytunodd y PSA i fwydo sylwadau Aelodau yn ôl wrth adrodd yn ôl i CIPFA.

**A15 Hyfforddiant ar gyfer y Cyd-bwyllgor Archwilio**

Roedd Gweithdy Cyd-bwyllgor Archwilio wedi'i drefnu ar 9 Hydref ym Mae Colwyn. Roedd agenda drafft ar gael i'r Aelodau ei ddarllen. Gofynnwyd i aelodau ofyn am unrhyw drefniadau ar gyfer aros dros nos.

Mynegodd aelodau bryder bod yr eitem agenda sy'n cynnwys cofrestri risg yn ddyblygiad o hyfforddiant y flwyddyn flaenorol. Er bod Aelodau wedi gofyn am rywfaint o amrywiaeth, roeddent yn gwerthfawrogi y byddai aelodaeth o'r grŵp sy'n bresennol yn pennu'r cynnwys o dan yr eitem hon. Cytunodd y PSA i fwydo sylwadau'r Aelodau yn ôl i'r hyfforddwyr.

**A16 Unrhyw fusnes arall**

**Newid i wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Roedd y PSA wedi bwydo sylwadau'r Aelodau yn ôl o ran yr anhawster mewn dod o hyd i dudalen y Cyd-bwyllgor Archwilio. O dan y wefan newydd, roedd yr ardal hon wedi'i lleoli o dan yr adran Monitro Eich Comisiynydd a chyfeiriodd y PSA yr Aelodau at gyfleuster chwilio defnyddiol sydd ar gael ar y wefan. Gofynnwyd i'r Aelodau edrych ar y wefan a bwydo unrhyw sylwadau yn ôl.

**Dyddiadau Cyfarfodydd 2016**

Roedd y dyddiadau canlynol ar gyfer 2016 wedi'u dosbarthu i'r Aelodau Pwyllgor a chynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru a TIAA – 22 Mawrth, 21 Mehefin, 20 Medi, 6 Rhagfyr 2016.

**Cynaliadwyedd Ariannol**

Ym mis Mehefin, rhyddhawyd adroddiad ar 'Cynaliadwyedd Heddluoedd yng Nghymru a Lloegr', a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Roedd yr adroddiad wedi'i drafod yn fras yng nghyfarfod mis Mehefin pan gytunwyd y dylid ei drafod ymhellach yng nghyfarfod mis Medi. Cwestiynodd MM pa un ai a oedd mewnbwn i'r ymgynghoriad wedi'i anfon oherwydd roedd y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad bellach wedi mynd heibio. Mynegodd MM ei bryderon oherwydd roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar heddluoedd trefol â phoblogaeth uchel ac yn portreadu darlun gwyrgam oherwydd nid oedd heddluoedd gwledig yn cael eu hadlewyrchu o fewn yr adroddiad; yn yr un modd â'r ymgynghoriad ar ddiwygio trefniadau ariannu'r heddlu yng Nghymru a Lloegr. Tra bod ardal o fewn cynnwys yr adroddiad yn cyfeirio at nifer y tai trwyddedig, mewn cymunedau gwledig, byddai nifer y tai trwyddedig yn creu mwy o effaith; ni adlewyrchwyd hyn yn y ddogfen.

Cadarnhaodd y PG faterion o gwmpas y fformiwla ariannu a oedd o bryder i heddluoedd.

Diolchodd MM y Cadeirydd am adael iddo fynegi ei bryderon ynghylch yr adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu'r cyfarfod.

**Daeth y cyfarfod i ben am hanner dydd.**
**Cyfarfod nesaf - 9 Rhagfyr 2015**